**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU**
**SIR DDINBYCH 2022**

**Rhif 123 – Llefaru Unigol Bl 2 ac iau**
**Crystia, Tony Llywelyn**

Urdd

Caniateir newid y llafariaid yn y geiriau canlynol, Crystie yn hytrach na Crystia, Caled yn hytrach na Calad, Cyrlen yn hytrach na Cyrlan.

# Crystia

Bob tro 'dan ni'n cael brechdan,
Dwi'n casáu hen grystia cas –
Maen nhw'n galad ac yn finiog
Ac yn afiach iawn eu blas.

Maen nhw'n crensian fel hen ludw,
Maen nhw'n ddu fel cefn y grât,
Maen nhw'n anodd iawn i'w cuddio
O dan ymyl crwn fy mhlât.

'Dyw 'mrawd ddim isio'u bwyta,
Mae'r ci yn troi ei drwyn,
Ac mae'r brain yn gweiddi 'Ych a fi'
Wrth eu lluchio'n ôl o'r llwyn.

'Mi gei gyrlan am bob crystyn,'
Yw pregeth ddyddiol Mam.
Ond does 'run blewyn ar ben Dad,
A does dim rhaid gofyn pam.

Tony Llywelyn